SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

**Cylchlythyr #17 SCHTh Gogledd Cymru – 6 April 2023**
**OPCC North Wales Newsletter #17 – 6 Ebrill 2023**

## Cyhoeddi enillwyr cronfa £120k ar gyfer prosiectau cymunedol lleol

Cyhoeddwyd enillwyr cronfa £120,000 arbennig er mwyn cynorthwyo cymunedau ledled Gogledd Cymru mewn seremoni arbennig yn y White House, Rhuallt, Sir Ddinbych ar 29 Mawrth. Mae cronfa Eich Cymuned, Eich Dewis yn cynorthwyo prosiectau llawr gwlad ac mae'n derbyn cymorth gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Andy Dunbobbin, Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned Gogledd Cymru (PACT) a Heddlu Gogledd Cymru.

Roedd gwobrau eleni hyd yn oed yn fwy arwyddocaol gan fod Eich Cymuned, Eich Dewis yn dathlu ei ddegfed pen-blwydd yn 2023. Dros y deng mlynedd diwethaf  mae cyfanswm o dros £500,000 wedi cael ei roi i dros 150 o brosiectau yn gweithio i leihau trosedd yn eu hardaloedd a chynorthwyo'r blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throsedd Mae'r arian ar gyfer Eich Cymuned, Eich Dewis yn dod yn rhannol oddi wrth arian sydd wedi ei atafaelu drwy'r llysoedd drwy Ddeddf Enillion Troseddau gyda'r gweddill o Gronfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
**Darllenwch fwy yma.**











## Winners announced of £120k fund for local projects

The winners of a special £120,000 fund to help communities across North Wales were announced at a dedicated ceremony in the White House, Rhuallt, Denbighshire on March 29. The Your Community, Your Choice fund supports grass-roots projects and is supported by the North Wales Police and Crime Commissioner, Andy Dunbobbin, North Wales Police and Community Trust (PACT) and North Wales Police.

This year's awards were even more significant as Your Community, Your Choice is celebrating its tenth anniversary in 2023 and, over the past ten years, a total of over £500,000 has been awarded to more than 150 projects working to reduce crime in their areas and to support the priorities in the Police and Crime Commissioner's Police and Crime Plan. The funding for Your Community, Your Choice comes partly from money seized by the courts through the Proceeds of Crime Act, with the rest from the Police and Crime Commissioner. **Read more here.**

---

## CHTh yn diolch i Gadetiaid Heddlu Gogledd Cymru g-ŵy-ch am eu gwasanaeth i'r gymuned

Aeth Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, i weld Cadetiaid Gwirfoddol Heddlu Gogledd Cymru ym Mhencadlys Rhanbarthol y Dwyrain yn Llai ger Wrecsam er mwyn cyflwyno ŵy Pasg i bob un ohonynt. Roedd yr anrheg er mwyn diolch iddynt am eu hymrwymiad a'u gwaith beichus ar ran trigolion y rhanbarth.

Mae Cadetiaid Gwirfoddol yr Heddlu yn grŵp ieuenctid heddlu cydnabyddedig mewn lifrai. Diben y Cadetiaid ydy annog ysbryd anturus a dinasyddiaeth dda. Mae Cadét Heddlu yn rhywun ifanc o unrhyw gefndir sydd eisiau magu dealltwriaeth o blismona a chynorthwyo eu cymuned leol yn unol â blaenoriaethau plismona presennol. Mae'r Cadetiaid yn annog pobl ifanc i ddatblygu sgiliau bywyd, cyfarfod ffrindiau newydd a chyflawni cymwysterau trosglwyddadwy.

Roedd y cadetiaid yn Llai ar gyfer y cyflwyniad o uned Cadetiaid y Dwyrain a Wrecsam ac yn 13-17 oed. Tra gwnaeth Mr Dunbobbin ymweld â'r Uned benodol hon er mwyn cyflwyno'r wyau yn y cnawd, mae pob un cadét ledled Gogledd Cymru – dros 100 – wedi derbyn un. **Darllenwch fwy yma**.



## Egg-cellent North Wales Police Cadets thanked by PCC for service to the community

Andy Dunbobbin visited North Wales Volunteer Police Cadets at the Force's Llay Eastern Divisional Headquarters near Wrexham to present each of them with an Easter Egg. The present was to thank them for their commitment and hard work on behalf of the residents of the region.

A Police Cadet is a young person from any background who wants to gain an understanding of policing and support their local community in line with current Policing priorities. The VPC encourages young people to develop life skills, meet new friends and achieve transferable qualifications.

The cadets at Llay for the presentation were from the East and Wrexham unit of the VPC and ranged in age from 13 to 17. While Mr Dunbobbin visited this particular Unit to present the eggs in person, all cadets across North Wales – who number more than 100 – have received one. **Read more here.**

## CHTh yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Ngogledd Cymru

Mae atal ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymunedau ledled Gogledd Cymru yn flaenoriaeth allweddol i Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) Gogledd Cymru. Mae'r broblem yn rhan allweddol o'i Gynllun Heddlu a Throsedd ar gyfer y rhanbarth, sy'n cynnwys ymrwymiadau i gynorthwyo dioddefwyr a chymunedau a chyflawni cymdogaethau mwy diogel. Ers cael ei ethol yn 2021, mae'r CHTh wedi cyflwyno sawl mesur newydd ac arloesol er mwyn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a meithrin Gogledd Cymru mwy diogel i bawb.

Mae cyhoeddiad Rishi Sunak AS, Prif Weinidog y DU, am ganolbwyntio newydd ar ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyfle i daflu goleuni ar y gwaith gwych sydd eisoes yn cael ei wneud yng Ngogledd Cymru er mwyn trechu'r broblem hon, y rhesymau tu ôl iddi, a sut allwn ni ei

hatal rhag digwydd yn y dyfodol. **Darllenwch fwy am fesurau atal ymddygiad gwrthgymdeithasol y Comisiynydd yma.**



## PCC tackles ASB in North Wales

Preventing anti-social behaviour (ASB) in communities across North Wales is a key priority for Andy Dunbobbin. The issue forms a key part of his Police and Crime Plan for the region, which includes commitments to supporting victims and communities and to delivering safer neighbourhoods. Since being elected in 2021, the PCC has introduced several new and innovate measures to combat ASB and foster a safer North Wales for everyone.

The announcement by UK Prime Minister Rishi Sunak MP of a renewed focus on tackling ASB is an opportunity to shine a light on the good work already being done in North Wales to combat this issue, the reasons that lie behind it, and how we can prevent it happening in future. **Read more about the Commissioner's ASB prevention measures here.**

## Dathlu diwylliant ac amrywiaeth yn Ysgol Uwchradd Prestatyn

Ar 27 Mawrth, aeth Andy Dunbobbin i Ysgol Uwchradd Prestatyn er mwyn cymryd rhan yng Ngŵyl Diwylliant ac Amrywiaeth blynyddol yr ysgol.  Tra yn yr ysgol, gwnaeth y Comisiynydd hefyd brofi'r amrywiaeth eang o ddiwylliannau a chefndiroedd sy'n gwneud cymuned ehangach Prestatyn.

Ymysg y gweithgareddau a welodd y CHTh oedd yr iaith Arabaidd, dawnsio Samba a choginio Jamaicanaidd gyda cogydd a entrepreneur lleol. Gwnaeth Andy Dunbobbin hefyd gyfarfod dysgwyr o'r grwp myfyrwyr atal gwahaniaethu o flaen murlun amrywiaeth yr ysgol sydd newydd gael ei beintio. Mae'r ysgol yn gobeithio y bydd yn dod yn ganolbwynt i fywyd myfyrwyr. **Darllenwch fwy yma.**




## Culture and diversity celebrated at Prestatyn High

On 27 March, Andy Dunbobbin visited Prestatyn High School to take part in the school's annual Festival of Culture and Diversity. While at the school, the Commissioner also experienced the wide variety of cultures and backgrounds that make up the wider community of Prestatyn.

Among the activities the PCC saw were Arabic language, Samba dancing and Jamaican cooking with local chef and entrepreneur. Mr. Dunbobbin also met learners from the anti-discrimination student group in front of the school's newly painted diversity mural, which the school hopes will become a centrepiece of student life. **Read more here.**

---

**SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU | OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES**

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy  LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner
North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy  LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy